**Pwyllgor Rhanbarth Y De Orllewin SWWR-02-02(p.1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **15 Mawrth 2002, 10.00 - 13.00pm** |
| **Lleoliad** | **Neuadd y Glowyr, Rhydaman** |
| **Teitl** | **Alun Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Sir Gaerfyrddin** |


Canolfan Griffith Jones *Centre*

Sancler/*St.Clears*

CAERFYRDDIN/*CARMARTHEN* SA33 4BT


# Cynllun Strategol Addysg

**2002 - 2005**


**Alun G. Davies**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol

Sir Gaerfyrddin


## Datganiad Strategol

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth addysg a fydd yn sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd addysgol o safon uchel i bob plentyn, ieuenctid ac oedolyn, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial llawn o fewn cyd-destun natur ddwyieithog unigryw y sir.*

***Cynllun Strategol Addysg***

| | |
|---|---|
| ***Blaenoriaeth Strategol 1 Cynnal a Gwella Safonau*** | • cynnal a herio ansawdd yr addysgu a'r dysgu er mwyn gwella perfformiad disgyblion ac ysgolion unigol<br>• canolbwyntio ar ymestyn sgiliau sylfaenol ac allweddol a sgiliau meddwl pob dysgwr, ynghyd â datblygu gallu o ran dwyieithrwydd<br>• gweithio gydag ysgolion i fonitro a mesur effaith y cymorth, cyfarwyddyd a hyfforddiant mewn swydd ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu |
| ***Blaenoriaeth Strategol 2 Adeiladu Cymdeithas sy'n Dysgu Strategic*** | • datblygu cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n gynhwysfawr a chynaliadwy<br>• defnyddio technoleg newydd er mwyn sicrhau mynediad i bawb sy'n dymuno cymryd rhan mewn gwir ddysgu gydol oes<br>• hyrwyddo datblygiad personol, cyfrifoldeb cymunedol, dinasyddiaeth a dealltwriaeth ryngwladol |
| ***Blaenoriaeth Strategol 3 Datblygu Sgiliau Arwain*** | • datblygu diwylliant o hunan-werthuso a newid hunan-gyfeiriedig wrth ledaenu arferion da, targedu cymorth a pharhau i gynnig her briodol<br>• integreiddio rheoli perfformiad gyda datblygiad proffesiynol parhaus o'r safon uchaf<br>• meithrin y gallu i arwain a gweddnewid ar bob lefel yn y gymuned ehangach. |

| | |
|---|---|
| ***Blaenoriaeth Strategol 4 Rheoli'r Ddarpariaeth Ddysgu*** | • datblygu ysgolion fel canolfannau dysgu yn eu cymunedau lleol<br>• meithrin cydweithrediad rhwng partneriaid allweddol er mwyn sicrhau parhad a dilyniant mewn cyfleoedd dysgu<br>• hyrwyddo egwyddorion ac arferion bod yn gynhwysol mewn perthynas â chyfleoedd dysgu lleol, defnyddio a dosbarthu gwasanaethau cynnal integredig |

## Y Prif Egwyddorion Ieithyddol a goleddir gan Sir Gaerfyrddin

Mae Awdurdod Addysg Sir Gaerfyrddin yn credu yn y gwerth addysgol o feddu ar ddwy iaith ac yn datgan yn bedant o blaid polisi dwyieithog yn ei ysgolion cynradd ac uwchradd.

Nod hir dymor y polisi yw addysgu'r disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol gynradd er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Dylai'r ddarpariaeth a wneir sicrhau fod y disgyblion yn medru cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith gan fod yn ymwybodol o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

Pwysleisir yr angen am barhad i'r polisi yn yr ysgol uwchradd drwy anelu at roi cyfle i'r disgyblion astudio'r Gymraeg fel pwnc ac i barhau gyda chyfran o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nod yr Awdurdod Addysg ar gyfer addysg Gymraeg yw codi ymwybyddiaeth aelodau, swyddogion, prifathrawon, athrawon, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a'r cymunedau at bwysigrwydd a gwerth y Gymraeg fel modd cyfathrebu er mwyn integreiddio a byw bywyd cyflawn yn y gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

***Cynllun Addysg Gymraeg - Gorffennaf 1998***

## Adolygiad o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg

## Nodiadau ychwanegol

**A. Arweiniad/cefnogaeth statudol**

- Deddfwriaeth glir/diamwys a gweithredol.
- Arweiniad ar y pethau creiddiol sy'n achosi anawsterau wrth weinyddu ein cyfrifoldebau
- diffinio dwyieithrwydd

- diffinio addysg drochi (gan gynnwys trochiad yn ystod CA2/3)
- diffinio mathau o ysgolion yn genedlaethol + disgwyliadau
- sicrhau dilyniant a pharhad rhwng CA2 a CA3 - Cymraeg fel pwnc + cyfrwng
- paratoi ar gyfer addysg bellach, addysg uwch a byd gwaith (y rhain yn barod ar gyfer pobl ifanc dwyieithog)
- gweithlu ac adnoddau dwyieithog
- un rhaglen astudio Gymraeg (dileu iaith gyntaf/ail iaith - un continwwm y Gymraeg).

<u>CADARNHAU/CRYFHAU YN DDIAMWYS DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993</u>

FEL AALl DIM GALLU GWEITHREDU/GWEINYDDU OS NAD OES DEDDFAU CLIR - RHIENI MWY BLAENGAR YN YMWYBODOL O'U HAWLIAU

**B. <u>Strategaeth glir, gydweithredol i weithredu'r gofynion statudol</u>**

- Rol y gwahanol asiantaethau yn gwbl glir
- Cynulliad
- Bwrdd yr Iaith
- ACCAC/CBAC
- AALl
- holl gyrff/astiantaethau eraill e.e. ELWa, asiantaethau hyfforddi, addysg bellach, addysg uwch, MYM, CCET, cwmnioedd gyrfaoedd, Mentrau Iaith, Urdd, Ffermwyr Ifanc.

**C. <u>Anghenion AALl</u>**

- Cyllid digonol i weithredu'r gofynion statudol
- Cynllun Strategol Addysg (presennol + 2002-05)
- Cynllun Addysg Gymraeg (presennol + diwygiedig)
- Polisi Iaith
- Strategaeth addysg gynradd y Sir
- Ysgolion bach gweledig niferus (Strategaeth addysg gynradd mewn Sir wledig gyda canran uchel o ysgolion bach)

- hwyr ddyfodiad (addysg drochiad)
- addysg gynhwysol i bawb (inclusion - SEN)
- cyfle cyfartal i bawb
- dilyniant a pharhad (Cymraeg fel pwnc, Cymraeg fel cyfrwng)
- cyrraedd safonau yn unol â gofynion canolog ar draws y cwrs addysg).

- Adnoddau dynol
- athrawon cymwys dwyieithog wedi eu hyfforddi ar gyfer y cynradd a'r uwchradd (N.B. athrawon i ddysgu Cymraeg ail iaith)
- arbenigwyr cynhaliol dwyieithog e.e. seicolegwyr, therapyddion lleferydd.
- gweinyddesau/goflawyr dwyieithog
- gweithlu pwrpasol dwyieithog er sicrhau cefnogaeth yn unol â'r angen
- cydweithrediad/cyd-ddealltwriaeth llywodraethwyr/rheini
- staff cefnogol (e.e. ymgynghorwyr) dwyieithog i sicrhau cefnogaeth yn unol â'r angen.

- Adnoddau dysgu
- pwrpasol, cyfoes, sbardunol (Cymraeg + pynciau)
- adnoddau TGCh
- adnoddau dysgu Cymraeg ail iaith (ar draws y Cyfnodau Allweddol).

***PARTNERIAETH GYDLYNUS RHWNG NIFER O ASIANTAETHAU SYDD AG UN TARGED - SICRHAU DISGYBLION A PHOBL IFANC DWYIEITHOG SYDD YN CYFLAWNI EU LLAWN BOTENSIAL YN ADDYSGOL (GAN GYFRANNU'N FRWYDFRYDIG I'W CYMUNEDAU CYNHENID NEU FABWYSIEDIG, A HYNNY YNG NGHYD-DESTUN STATUDOL DEDDF IAITH GYMRAEG SY'N CYFLEU GWELEDIGAETH AC YMARFEROLDEB EGLUR, CADARN AC YMESTYNOL.***

**ATODIAD**

**Y Ddarpariaeth Addysgol mewn Ysgolion Cynradd**

- Codwyd mwy na 60% o'r ysgolion dros 50 yn ôl
- Mae 15 ysgol heb doiledau o dan yr unto
- Mae 48 heb Neuadd
- Mae 57 ysgol heb faes chwarae digonol
- Mae 38 ysgol yn defnyddio cabanau dros dro
- Mae arolwg o gyflwr yr ysgolion yn dangos bod angen gwario £18 m er mwyn sicrhau bod pob ysgol mewn cyflwr rhesymol
- Mae rhyw £1,000,000 ar gael i'w wario ar gynnal a chadw adeiladau bob blwyddyn
- Mae gan 127 o ysgolion ddosbarthiadau sy'n cynnwys oedrannau gwahanol
- Dim ond 9 ysgol sydd â phennaeth heb gyfrifoldebau dysgu
- Mae 102 o ysgolion heb gyfleusterau meithrin

**Mae'r Strategaeth yn awgrymu hefyd y bydd yr Awdurdod, o wneud hyn:**

- yn medru cydymffurfio yn well â'i ddyletswydd i "ddarparu digon o lefydd mewn ysgolion cynradd".
- yn creu gwell sylfaen ar gyfer cydymffurfio â'i ddyletswyddau ehangach o ran hyrwyddo dysgu gydol oes a datblygu cymunedol.
- yn medru cynnig gwell cymorth o ran ei amcanion ym maes cynhwysiad cymdeithasol.
- yn medru cael gwared ar lefydd diangen ac ymdrin â gwasgfeydd o ran adeiladau.
- yn cynnig y posibiliad o ailddosbarthu a/neu ailrannu adnoddau refeniw er lles pob cymuned, fel bod pob disgybl yn derbyn cyfran decach o'r adnoddau sydd ar gael
- yn medru defnyddio'i adnoddau prin o ran cynnal a chadw a chyfalaf a'u targedu'n fwy effeithiol.
- yn cyfrannu at ofynion y dyfodol o ran datblygu cyfleusterau meithrin.
- yn lleihau nifer y cabanau dros dro a ddefnyddir.
- yn sicrhau bod cyfleusterau a safonau priodol ar gael ym mhob ysgol gymuned, yn enwedig o ran toiledau, mannau cyhoeddus ac ati.
- yn creu ysgolion y mae eu maint yn cynnig mwy o ddewis o ran trefniadaeth ysgol.
- yn medru cynnig gwell cymorth o ran ehangu a darparu cwricwlwm mwy priodol ac arloesol
- yn darparu gwell trefniadaeth ysgol a fydd yn golygu bod ysgolion yn medru sicrhau bod gan y staff amrywiaeth o gryfderau a galluogi athrawon i arbenigo o ran oed a phwnc – yn cynnwys dysgu fel tîm
- yn cynnig cyfleoedd gwell i ddisgyblion weithio, cydweithio, cymdeithasu a chwarae gyda disgyblion o'r un oed/rhyw a datblygu sgiliau priodol o ran ymwneud ag eraill.
- gwella cyflwr yr adeiladau gan gadw'r costau cynnal a chadw parhaus mor isel â phosibl.

Mae'r Strategaeth yn cadarnhau y bydd cysondeb o ran lefel a safon y gwasanaeth a ddarperir ym mhob un o ysgolion cymuned yr Awdurdod a darperir cyfleusterau mwy priodol er mwyn annog yr elfen hollbwysig sef bod y gymuned ehangach yn defnyddio'r asedau hyn.

Roedd y strategaeth yn derbyn mai effaith anorfod yr ad-drefnu a awgrymir fyddai llai o ysgolion. Wrth gymeradwyo'r Strategaeth cadarnhaodd yr Awdurdod ei fod yn cefnogi'r egwyddorion ad-drefnu a gofynnwyd i'r swyddogion lunio cynlluniau arbrofol ac argymhellion i'w hystyried gan yr Aelodau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau natur, rhychwant a chanfyddiadau'r adolygiad o'r ddarpariaeth llefydd ysgol yn ardal Llanboidy, Cae'r Felin a Chwmaman yng nghyd-destun y Strategaeth gymeradwy hon.